



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gwasanaeth Cyfieithu

Pecyn Gwybodaeth
Hydref 2026

Cynnwys

Rhagair gan Bennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu	3
Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru	4
Rhannu gair o brofiad	8
Y Cynllun Datblygu Cyfieithwyr	12
Y broses recriwtio	13

Rhagair

Os ydych chi'n darllen y ddogfen hon, rydw i'n gobeithio eich bod yn ystyried dod i weithio yng Ngwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru yn un o'r amrywiol swyddi sy'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd. Nod y pecyn hwn yw rhannu gwybodaeth am y llywodraeth a rôl y Gwasanaeth Cyfieithu o fewn y sefydliad er mwyn eich cefnogi i ymgeisio am swydd gyda ni. Cewch ragor o wybodaeth am y swyddi unigol yn y disgrifiadau swydd.

Prif waith y Gwasanaeth Cyfieithu yw cefnogi'r llywodraeth i rannu ei hamrywiol negeseuon gyda'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg – boed hynny drwy areithiau, deddfwriaeth, papurau polisi neu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn gwneud hyn, mae'r tîm yn cynnig amrywiol wasanaethau gan gynnwys gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig, cyfieithu ar y pryd a rhoi cyngor ar derminoleg. Mae pob diwrnod yn amrywio gan ddibynnu beth sydd ar y gweill gan ein Gweinidogion. Rydym yn gweithio ar draws holl feysydd gwaith y llywodraeth gyda chyfle i ddysgu mwy am bolisiau er enghraifft ym maes cynllunio gwlad a thref, diwylliant, addysg, trafnidiaeth, twristiaeth neu'r Gymraeg. Mae hyn oll yn rhan o'r ecosystem sy'n arwain at gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a Rheolau Sefydlog y Senedd.

Mae aelodau'r Gwasanaeth Cyfieithu yn gweithio ym mhob cwr o'r wlad: yn swyddfeydd Caernarfon, Cyffordd Llandudno, Aberystwyth, Caerfyrddin a Chaerdydd. Mae gan y llywodraeth swyddfeydd ym Merthyr Tudful, Penlle'r-gaer a Wrecsam hefyd. Rydym yn cyfuno ein hamser rhwng gweithio yn ein cartrefi ac mewn swyddfeydd – gyda disgwyliad i dreulio o leiaf 40% o'n hamser yn un o swyddfeydd

y llywodraeth. Rydym ni'n cael budd mawr o ddod at ein gilydd yn yr un lleoliad i gydweithio ac i dreulio amser gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad.

Rwy'n gobeithio y bydd darllen am waith y Gwasanaeth Cyfieithu, a chlywed am brofiadau ambell aelod o'r tîm, yn eich denu i ymgeisio am swydd gyda ni. Rydym yn hysbysebu swyddi arbenigol i gyfieithwyr ac ieithyddion medrus yn ogystal â swyddi mwy cyffredinol ar gyfer unigolion sydd wedi arfer gweithio yn Gymraeg. Maent yn cynnig cyfle i chi ddatblygu gyrfa amrywiol a diddorol mewn tîm cyfeillgar, gweithgar, arloesol a phroffesiynol, a hynny wrth galon Llywodraeth Cymru. Ewch amdani!



Lowri Roberts
Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu

Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyfathrebu ac i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog, ac i gadw at Safonau'r Gymraeg a Rheolau Sefydlog y Senedd.

Ein prif wasanaethau

- **Cyfieithu testunau cyffredinol**
(o'r Saesneg i'r Gymraeg yn bennaf) ar gyfer y Prif Weinidog a'i Gabinet ac ar ran swyddogion yr adrannau polisi.
- **Cyfieithu testunau deddfwriaethol**
(o'r Saesneg i'r Gymraeg yn bennaf), sef cyfieithu Biliau ac is-ddeddfwriaeth ar gyfer Gweinidogion Cymru.
- **Cyfieithu ar y pryd (CAP)** o'r Gymraeg i'r Saesneg yn bennaf ar gyfer y Gweinidogion ac uwch-swyddogion.
- **Safoni a rheoli terminoleg ac arddull**, gan gynnwys darparu BydTermCymru a chydweithio â phartneriaid allanol sy'n gweithio ar dermau ac arddull.

Cyfieithu testunau

Mae meysydd amrywiol iawn wedi cael eu datganoli i Gymru (ee, iechyd, addysg, llywodraeth leol), ac mae ein gwaith ni yn adlewyrchu hynny. Mae'r ddwy uned gyflenwi yn y Gwasanaeth Cyfieithu (yr Uned Cyfieithu Testun a'r Uned Cyfieithu Deddfwriaeth) yn cyfieithu dogfennau y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Dyma destunau sy'n rhoi polisiâu Llywodraeth Cymru ar waith ac sy'n effeithio ar fywydau pawb yng Nghymru.

Mae'r ddwy uned gyflenwi wedi cael eu rhannu'n bortffolios, â'r cyfieithwyr yn gweithio mewn timau sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol. Caiff pob un o'r timau hyn eu rheoli gan Arweinydd Tîm, a bydd y timau yn cydweithio ac yn helpu ei gilydd i fodloni'r galw. Byddwn hefyd yn comisiynu cwmnïau cyfieithu drwy gytundeb fframwaith i helpu, yn enwedig ar adegau prysur.

Mathau o waith

Bydd yr Uned Cyfieithu Testun yn delio â phob math o destunau, gan gynnwys dogfennau polisi, canllawiau, areithiau i Weinidogion, datganiadau i'r wasg, testunau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a gohebiaeth. Bydd natur y gwaith fel arfer yn adlewyrchu gweithgaredd y Llywodraeth a'r dogfennau y bydd yn flaenoriaeth i'r Gweinidogion eu cyhoeddi yn ddwyieithog.

Bydd yr Uned Cyfieithu Deddfwriaeth yn canolbwyntio ar gydweithio'n agos â chyfreithwyr y Llywodraeth i lunio testunau Cymraeg a Saesneg o ddeddfwriaeth sydd o'r un statws cyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys cyfieithu a drafftio testunau deddfwriaethol, diwygio, ac adolygu testunau deddfwriaethol a gafodd eu drafftio gan gyfreithwyr. Bydd y cyfieithwyr yn cydweithio â'r cyfreithwyr i ofalu bod y testunau Cymraeg a Saesneg yn gyfwerth â'i gilydd.

Cyfieithu ar y pryd

Rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd a gynhelir gan y Gweinidogion, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd y Cabinet. Mae natur y cyfarfodydd yn amrywio, gyda rhai wyneb yn wyneb ac eraill ar lein. Caiff y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb eu cynnal yng Nghaerdydd, ond gall rhai gael eu trefnu mewn lleoliadau eraill ledled Cymru.

Rydym hefyd yn rhoi cyngor yn ôl y galw i swyddogion polisi wrth iddyn nhw gomisiynu cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd eraill a gynhelir gan Lywodraeth Cymru.

Terminoleg ac arddull

Mae safoni a rheoli terminoleg yn rhan hollbwysig o gylch gwaith gwasanaeth cyfieithu mewn sefydliad mawr fel y Llywodraeth.

Yn ogystal â safoni terminoleg ar gyfer y Gwasanaeth ei hun, rydym hefyd yn cynghori adrannau Llywodraeth Cymru ar faterion terminoleg ac yn cydweithio'n agos â Chomisiynydd y Gymraeg ym maes safoni enwau lleoedd Cymraeg.

Mae TermCymru yn gronfa helaeth a dibynadwy o dermau safonol yn y gwahanol feysydd y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â nhw. Mae'n cynnwys enwau cynlluniau a rhaglenni'r llywodraeth, ynghyd â theitlau llawer o'r dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi gan y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill. Caiff y gronfa ei diweddarau'n rheolaidd er mwyn rhannu'r termau newydd sy'n codi yng ngwaith Llywodraeth Cymru – ac er mwyn i bobl eraill sy'n cyfieithu neu'n gweithio yn y Gymraeg allu eu defnyddio wrth eu gwaith o ddydd i ddydd.

Ers 2015, mae TermCymru yn rhan o lwyfan BydTermCymru. Yn BydTermCymru mae llawer o adnoddau ychwanegol fel yr Arddulliadur, copïau o ganllaw arddull a geirfa ddrafftio deddfwriaethol, casgliad o arwyddion ffyrdd safonol, a chofau cyfieithu parod.

Ein Tîm

Mae’r Gwasanaeth Cyfieithu yn cyflogi dros 40 aelod o staff amser llawn a rhan-amser. Cyfieithu testunau i’r Gymraeg yw prif waith y Gwasanaeth ac, oherwydd hynny, mae pob rheolwr, arbenigwr, uwch-gyfieithydd a chyfieithydd yn cyfrannu at y gwaith hwnnw. Dyna pam y byddwn bob amser yn profi gallu cyfieithu pob ymgeisydd wrth recriwtio i’r swyddi hynny.


Mae’r Gwasanaeth Cyfieithu yn dibynnu ar dechnoleg y llywodraeth a’r dechnoleg gyfieithu arbenigol er mwyn ymgymryd â’i waith gan achub ar bob cyfle i arloesi. Mae holl aelodau’r tîm yn treulio rhan o’r wythnos yn gweithio mewn swyddfa a rhan o’u hamser gartref, gan ddefnyddio’r dechnoleg sydd ar gael drwy rwydwaith y llywodraeth.

Y Cyfieithwyr

Bydd ein Cyfieithwyr yn cael eu goruchwyllo gan Uwch-gyfieithydd profiadol a fydd yn adolygu pob darn o waith cyn iddo gael ei gyhoeddi. Yn ogystal â chael adborth ar bob darn o waith, bydd staff ar y lefel hon yn dilyn fframwaith datblygu yn y prif agweddau ar waith y Gwasanaeth, gan gynnwys cyfieithu testunau, cyfieithu deddfwriaethol a hanfodion terminoleg ac arddull. Y nod yw i’r Cyfieithwyr ddatblygu eu sgiliau i ennill dyrchafiad i swydd Uwch-gyfieithydd yn y pen draw.

Yr Uwch-gyfieithwyr

Mae’r Uwch-gyfieithwyr yn gyfieithwyr profiadol â sgiliau iaith ardderchog sy’n medru gwneud gwaith o safon uchel heb oruchwyliaeth barhaus. Byddant hefyd yn goruchwyllo, yn mentora ac yn rheoli Cyfieithwyr, ac yn cyfrannu at feysydd eraill fel golygu, prawffddarllen, adolygu a diwygio testunau a safoni terminoleg.



Arweinwyr y timau cyfieithu

Mae'r arweinwyr timau yn gyfieithwyr profiadol iawn sydd hefyd yn gallu rheoli ac arwain timau o uwch-gyfieithwyr a chyfieithwyr. Nhw sy'n gyfrifol am arwain prosiectau cyfieithu, ac am ddyrannu'r gwaith o fewn eu timau.

Yr Uned Ddatblygu

Mae'r uned hon yn arwain ar faterion terminoleg, arddull, iaith ac ansawdd, ac yn gyfrifol am BydTermCymru. Mae hefyd yn arwain ar faterion datblygu proffesiynol, yn gyfrifol am gynnal prosesau recriwtio, ac yn cynnal gweithgareddau profiad gwaith i brifysgolion. Yr uned hefyd sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg arbenigol, ee cofau cyfieithu, cyfieithu peirianyddol a systemau cribo, rheoli a rhannu terminoleg.

Yr Uned Fusnes

Mae'r tîm o swyddogion busnes sy'n gyfrifol am yr holl waith gweinyddol yn rhan gwbl allweddol o'r Gwasanaeth Cyfieithu. Yn ogystal â bod yn bwynt cyswllt cyntaf i'n cwsmeriaid, maen nhw hefyd yn prosesu ceisiadau, yn paratoi darnau ar gyfer eu cyfieithu gan ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu, yn delio â gwaith cyllid, yn rhoi cymorth i'r tîm rheoli ac i'r cyfieithwyr yn gyffredinol, ac yn trefnu i anfon gwaith cyfieithu at y cwmnïau cyfieithu allanol.

Y tîm rheoli

Mae'r tîm rheoli yn cynnwys Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu, Pennaeth yr Uned Cyfieithu Deddfwriaeth, y Pennaeth Cyfieithu Testun a CAP, a'r Pennaeth Busnes a Datblygu. Er bod y rheolwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar arwain gwahanol agweddau ar waith y Gwasanaeth, maen nhw i gyd yn ieithyddion hefyd, ac yn cyfrannu at wahanol agweddau ar y swyddogaethau cyfieithu.

Rhannu gair o brofiad

Nia Jenkins
Uwch-gyfieithydd

Ymunais â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru yn 2019 ar ôl gweithio i ddau gwmni cyfieithu annibynnol ac yn y byd llyfrau. Roeddwn yn awyddus i fireinio fy sgiliau cyfieithu ac achub ar y cyfle i ddatblygu fy ngyrfa ymhellach. Mae'r cynlluniau datblygu trylwyr, y cyfleoedd newydd, yr hyfforddiant trefnus a'r holl anogaeth ac adborth adeiladol a gefais fel cyfieithydd ers ymuno â'r sefydliad hwn wedi bod yn werthfawr dros ben.

Wrth agor y cyfrifiadur yn y bore does dim dal pa fath o dasg sy'n ymddangos ar eich sgrin... gall y gwaith amrywio o'r creadigol i'r technegol, a dyna ran o'r apêl i mi. Weithiau, bydd angen creu negeseuon bachog ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol neu feddwl am sloganau slic ar gyfer ymgyrchoedd newydd. Droeon eraill bydd angen cyfieithu datganiadau i'r wasg, areithiau i wleidyddion, dogfennau polisi, neu ganllawiau a rheoliadau pwysig sy'n effeithio ar bob agwedd o fywydau pobl Cymru.

Rwy'n teimlo'n ffodus i weithio mewn tîm mawr a chyfeillgar sy'n cynnwys cyfieithwyr ac ieithyddion profiadol dros ben. Rydyn ni'n cadw mewn cysylltiad cyson ac mae'n gysur gwybod bod modd holi barn eraill yn y tîm yn ôl y galw. Dydych chi ddim ar eich pen eich hun fan hyn – mae'r arweinwyr timau yn arbenigwyr yn eu meysydd, mae'r uwch-gyfieithwyr yn cynnig awgrymiadau defnyddiol i staff newydd ac mae'r Terminolegydd wrth law hefyd os oes angen cyngor wrth fathu termau newydd. Mae gennym adnoddau TG o'r radd flaenaf ac mae'r feddalwedd cof cyfieithu yn hwyluso ein gwaith o ddydd i ddydd hefyd.

Ers y pandemig mae mwy a mwy o bobl wedi sylweddoli cymaint, yn wir, o feysydd mae gwleidyddion Cymru yn dylanwadu arnynt... o ward yr ysbyty i'r ystafell ddosbarth, o'r stryd fawr i glos y fferm. Bydd yr hyn rydych chi'n ei gyfieithu yn sicr o fod ymhlith pynciau llosg y dydd.

Ffion Mair Griffiths Swyddog Busnes



Ymunais â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2023 fel Swyddog Cymorth Busnes. Hynny ar ôl 14 o flynyddoedd yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 5 mlynedd yn yr adran gwynion a 9 mlynedd yn gweinyddu yn yr adran gyfieithu. Er ei bod yn swydd debyg i hon roedd angen i mi ddysgu defnyddio meddalwedd newydd a phrosesau gwahanol o weithio.

Fel Swyddog Cymorth Busnes, fi yw'r pwynt cyswllt cyntaf i gwsmeriaid sy'n cyflwyno ceisiadau am waith cyfieithu neu anfon ymholiadau amrywiol i'n blwch cyfieithu canolog.

Mae fy nyletswyddau yn cynnwys, prosesu ceisiadau trwy edrych yn fanwl ar ofynion y cwsmer, bwydo'r gwaith i'n cof cyfieithu trwy ddefnyddio ein meddalwedd arbenigol. Mae hyn yn rhoi dadansoddiad o'r gwaith ac yn gymorth i'r Arweinwyr Tîm ddidoli'r gwaith. Rwyf hefyd yn prosesu ceisiadau Cyfieithu ar y pryd ac yn eu trefnu gyda staff mewnol ac allanol. Byddaf yn anfon gwaith na allwn gwblhau yn fewnol at gwmnïau allanol a thrin a thrafod terfynau amser. Mae hyn yn bwysig i allu blaenoriaethu gwaith brys neu uchel ei broffil ar adegau prysur yn ystod y flwyddyn.

Rwy'n mwynhau fy ngwaith yn arw ac mae'n adran gyfeillgar iawn i weithio ynddi ac rydym yn gefnogol iawn o'n gilydd. Mae'n bleser gweithio yn yr Uned Fusnes gyda thîm mor hyblyg a phroffesiynol.

Rwyf wedi magu nifer o sgiliau ers ymuno a'r Gwasanaeth Cyfieithu ac wedi datblygu fy hun trwy fynychu cyrsiau amrywiol a gyda chefnogaeth pawb o fewn yr adran. Rwyf wedi derbyn adborth cefnogol ac ymestyn fy sgiliau a gwella'r prosesau o fewn ein tîm i greu profiad positif i'n cwsmeriaid wrth gysylltu gyda'r Uned Fusnes.

O ganlyniad rwyf newydd gael dyrchafiad i swydd Swyddog Busnes ac yn edrych ymlaen at yr her newydd.

Rhian Lyn Evans Uwch-gyfieithydd



Ymunais â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru yn 2019. Cyn hynny roeddwn yn gweithio fel cyfieithydd mewn ysgol uwchradd ddwyieithog.

Un o brif atyniadau'r swydd gyda'r Gwasanaeth Cyfieithu i mi oedd cael gweithio fel aelod o dîm mawr. Ar ôl gweithio ar fy mhen fy hun am lawer o flynyddoedd, mae'n braf, erbyn hyn, gallu troi at fy nghydweithwyr i drafod term neu i geisio eu barn ar y ffordd orau o fynegi ymadrodd neu frawddeg.

Pan ymunais â'r Gwasanaeth Cyfieithu fel cyfieithydd cefais fy mharu ag uwch-gyfieithydd a oedd yn gyfrifol am adolygu fy nghyfieithiadau a rhoi adborth imi ar fy ngwaith. Teimlaf fod y dull hwn o weithio wedi fy helpu i ymgyswrtio ag arddull y Gwasanaeth ac i ddatblygu fy sgiliau cyfieithu, yn arbennig ym maes cyfieithu deddfwriaethol, a oedd yn hollol newydd imi.

Fel rhan o'r cynllun cynefino a datblygu, rwyf wedi cael profiad o weithio gyda'r tîm cyfieithu testun a'r tîm cyfieithu deddfwriaethol ac wedi cael blas ar gyfieithu amrywiaeth eang o destunau, o ddarnau creadigol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i destunau deddfwriaethol. Mae wedi bod yn gyfle gwych imi ddysgu beth yw fy nghryfderau a darganfod pa fath o waith sy'n apelio fwyaf ataf.

Erbyn hyn rwyf wedi ymgartrefu yn y tîm deddfwriaethol fel uwch-gyfieithydd ac yn mwynhau'r her o ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gyfieithu testunau gwahanol iawn i'r hyn yr oeddwn yn ei wneud cyn ymuno â'r Gwasanaeth.

Geraint Williams Arweinydd Terminoleg



Ymunais â'r Uned Ddatblygu am fy mod bob amser wedi mwynhau'r ochr ieithyddol a dadansoddol i waith cyfieithu, yn enwedig y gwaith o ymchwilio i dermau. Er nad wyf yn treulio fy nyddiau yn cyfieithu dogfennau, rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r cyfieithwyr cyffredinol a deddfwriaethol ac yn rhoi cefnogaeth arbenigol iddynt gyflawni eu gwaith.

Un o'r pethau gorau am y swydd yw'r amrywiaeth. Does dim dau ddiwrnod yr un fath. Yn y bore gallech fod yn cloddio i ystyr term gwyddonol astrus, yn paratoi rhestr o dermau o Reoliadau drafft ar gyfer y cyfieithwyr deddfwriaethol, neu'n ymateb i gais brys am gymorth gyda therm newydd ym maes iechyd. Yn y prynhawn, gallech fod yn ychwanegu a diweddarau cofnodion yn TermCymru, neu'n trafod opsiynau gyda chydweithwyr fel rhan o'r broses o safoni termau. Gan fod gwaith y llywodraeth yn ymestyn dros gymaint o feysydd polisi, mae'n ddiwrnod anarferol pan na fyddwch yn dysgu rhywbeth newydd!

Mae'r gwaith yn rhoi llawer o foddhad hefyd. Mae safoni termau a'u cyhoeddi yn TermCymru yn helpu cyfieithwyr Llywodraeth Cymru i weithio'n gyson ac yn effeithlon, ac yn cefnogi'r llywodraeth i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg. Ond mae effaith y gwaith yn mynd ymhell y tu hwnt i hynny. Mae TermCymru yn adnodd allweddol i'r diwydiant cyfieithu cyfan ac yn cael ei ddefnyddio gan bob math o bobl sy'n chwilio am dermau Cymraeg cyfoes a dibynadwy. Mae'n braf meddwl bod y gwaith yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at ddatblygiad a defnydd y Gymraeg.

Rwy'n hoff iawn hefyd o'r ffordd y mae'r gwaith yn cyfuno'r hen a'r newydd. Ar y naill law, mae'n dibynnu ar ddealltwriaeth drylwyr o'r Gymraeg, ei gramadeg, ei horgraff a'i geirfa. Ar y llaw arall, rydym yn defnyddio technolegau arloesol ac yn datblygu adnoddau ieithyddol sy'n helpu'r Gymraeg i ffynnu mewn byd digidol.

Yn fwy na dim, mae'n bleser gweithio gyda chydweithwyr profiadol a gwybodus sy'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth maent yn ei chael â thermau. Mae'n waith diddorol, defnyddiol ac ystyrlon, ac mae'n braf gweld termau newydd sydd wedi bod drwy fy nwylo yn ennill eu plwyf ac yn cael eu defnyddio yn y byd go iawn.

Y Cynllun Datblygu Cyfieithwyr

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer pob swydd yn cael cefnogaeth cynefino a chyfleoedd datblygu. Bydd unrhyw un sy'n cael ei benodi i swydd Cyfieithydd yn dilyn cynllun datblygu strwythuredig, dros gyfnod i'w drefnu, er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau i ennill dyrchafiad a dod yn Uwch-gyfieithwyr. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- Cyfnod yn gweithio o dan oruchwyliaeth Uwch-gyfieithydd profiadol a fydd yn darparu adborth manwl ar y gwaith, er mwyn gwella sgiliau cyfieithu a datblygu dealltwriaeth o arddull, cyd-destun sefydliadol, a therminoleg y Gwasanaeth Cyfieithu.
- Yn achos cyfieithydd ar y pryd, bydd hyn yn digwydd yn yr Uned Cyfieithu Testun yn unig; yn achos cyfieithydd testun, treulir cyfnodau yn yr Uned Cyfieithu Testun a'r Uned Cyfieithu Deddfwriaeth.
- Cyfnodau'n gweithio yn Uned Ddatblygu'r Gwasanaeth (er mwyn meithrin arbenigedd ym meysydd arddull, terminoleg, enwau lleoedd a thechnoleg gyfieithu) ac yn yr Uned Fusnes (er mwyn deall y prosesau gweinyddol sy'n atgyfnerthu'r gwaith cyfieithu).
- Hyfforddiant a gweithgareddau dysgu a datblygu a fydd yn galluogi'r Cyfieithwyr i ddeall eu rolau fel cyfieithwyr a gweision sifil, ac i ddysgu am arferion arbenigol ac arloesol y Gwasanaeth a'r llywodraeth.

- Cefnogaeth fugeiliol a deunyddiau i alluogi'r Cyfieithwyr i ddatblygu'n broffesiynol yn eu swyddi – disgwylir i'r Cyfieithwyr fod yn gyfrifol am gofnodi a rheoli eu datblygiad eu hunain, gan gynnwys gweithredu ar sail adborth.

Bwriedir i'r cynllun baratoi'r Cyfieithwyr i ymgeisio am ddyrchafiad i swyddi Uwch-gyfieithwyr (HEO) ar ddiwedd y cyfnod. Os na fydd y Cyfieithwyr yn llwyddiannus yn y broses ddyrchafiad, byddant yn parhau i weithio fel Cyfieithwyr (EO).

Y broses recriwtio

Mae amrywiaeth o gyfleoedd i ymuno â'r Gwasanaeth Cyfieithu ar hyn o bryd, ar wahanol lefelau ac i wahanol swyddi. Dyma grynodedeb o'r amrywiol brosesau recriwtio.

Ym mhob achos, bydd rhagor o wybodaeth am y gofynion a'r meini prawf, a'r ffurflen gais, i'w gweld trwy fynd i'r hysbyseb berthnasol ar system Cais.

Mae'r prosesau i gyd yn dilyn Proffiliau Llwyddiant, sef y fframwaith recriwtio a ddefnyddir o fewn y Gwasanaeth Sifil. Mae rhagor o wybodaeth am y fframwaith ar wefan gov.uk: **Proffiliau Llwyddiant – GOV.UK**

Disgwylir nifer fawr o geisiadau am y swyddi hyn ac mae'r broses recriwtio'n debygol o gymryd amser.

Gellir cadw rhestr wrth gefn ar gyfer pob un o'r cyfleoedd. Bydd unrhyw ymgeisydd sy'n llwyddiannus wrth gael cynnig statws wrth gefn yn aros ar y rhestr wrth gefn am 12 mis.

Swyddi Cymorth Tîm yr Uned Fusnes (dwyr swydd)

Bydd hon yn broses recriwtio dau gam; bydd rhaid llwyddo yn y cam cyntaf i fynd i'r ail gam:

- Sifft – asesiad o'r wybodaeth ar y ffurflen gais.
- Cyfweliadau (drwy Teams).

Swydd Rheolwr Terminoleg yr Uned Ddatblygu (un swydd)

Bydd hon yn broses recriwtio tri cham; bydd rhaid llwyddo yn y cam cyntaf i fynd i'r ail gam, etc:

- Sifft – asesiad o'r wybodaeth ar y ffurflen gais.
- Prawf ysgrifenedig (drwy Teams).
- Cyfweliadau (drwy Teams).

Swyddi cyfieithu ar y pryd (dwyr swydd)

Rydym yn recriwtio ar lefel uwch-gyfieithydd (HEO), ond gellir cynnig swydd ar lefel cyfieithydd (EO) gan ddibynnu ar sgiliau a phrofiad yr ymgeiswyr a pherfformiad yn ystod yr asesiad. Mewn achos o'r fath, cynigir rhaglen ddatblygu strwythuredig, a chyfle i ymgeisio am ddyrchafiad ymhen lleiafswm o chwe mis.

Bydd hon yn broses recriwtio tri cham; bydd rhaid llwyddo yn y cam cyntaf i fynd i'r ail gam, etc:

- Sifft – asesiad o'r wybodaeth ar y ffurflen gais.
- Prawf.

Prawf Cyfieithu ar y pryd: cynhelir hwn yn swyddfeydd y llywodraeth yng Nghaerdydd. Gofynnir i'r ymgeiswyr gyfieithu dau ddarn oddeutu 10 munud yr un. Rhoddir amser i'r ymgeiswyr ddarllen gwybodaeth am y darnau ymlaen llaw.

Ysgrifenedig:

- Prawf heb ei amseru: ar ôl y dyddiad cau, bydd yr ymgeiswyr yn derbyn darn tua 300 o eiriau i'w gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Caniateir o leiaf 5 diwrnod gwaith i'r ymgeiswyr gyfieithu'r darn yn eu hamser eu hunain.
- Prawf wedi ei amseru: bydd yr ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i brawf o dan amodau arholiad (i'w gynnal drwy Teams). Bydd un darn, tua 300 o eiriau, i'w cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Caniateir awr ar gyfer y prawf.
- Caiff y profion eu marcio'n ddienw gan aelodau o staff y Gwasanaeth Cyfieithu.
- Defnyddir grid marcio arferol y Gwasanaeth Cyfieithu, sy'n rhoi canlyniad "Anfoddhaol", "Addawol", neu "Boddhaol". Bydd dau ganlyniad – un yr un ar gyfer y prawf cyfieithu ar y pryd a'r prawf cyfieithu ysgrifenedig. Rhaid cael o leiaf un canlyniad "Boddhaol", ac un canlyniad "Boddhaol" neu "Addawol", i basio'r cam hwn.
- Cyfweliadau (drwy Teams).

Swyddi cyfieithu testun (pum swydd o leiaf)

Rydym yn recriwtio ar lefel uwch-gyfieithydd (HEO), ond gellir cynnig swydd ar lefel cyfieithydd (EO) gan ddibynnu ar sgiliau a phrofiad yr ymgeiswyr a pherfformiad yn ystod yr asesiad. Mewn achos o'r fath, cynigir rhaglen ddatblygu strwythuredig, a chyfle i ymgeisio am ddyrchafiad ymhen lleiafswm o chwe mis.

Bydd hon yn broses recriwtio tri cham; bydd rhaid llwyddo yn y cam cyntaf i fynd i'r ail gam, etc:

- Sifft – asesiad o'r wybodaeth ar y ffurflen gais.
- Prawf ysgrifenedig (drwy Teams).

- Prawf heb ei amseru: ar ôl y dyddiad cau, bydd yr ymgeiswyr yn derbyn dau ddarn, tua 300 o eiriau yr un, i'w cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Bydd un yn ddarn deddfwriaethol a'r llall yn ddarn cyffredinol. Caniateir o leiaf 5 diwrnod gwaith i'r ymgeiswyr gyfieithu'r darnau yn eu hamser eu hunain.
- Prawf wedi ei amseru: bydd yr ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i brawf o dan amodau arholiad (i'w gynnal drwy Teams). Bydd dau ddarn, tua 300 o eiriau yr un, i'w cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Bydd un yn ddarn deddfwriaethol a'r llall yn ddarn cyffredinol. Caniateir dwy awr ar gyfer y prawf.
- Caiff y profion eu marcio'n ddienw gan aelodau o staff y Gwasanaeth Cyfieithu. Caiff y ddau ddarn cyffredinol, a'r ddau ddarn deddfwriaethol, eu marcio gyda'i gilydd a'u hystyried i'r un graddau â'i gilydd.
- Defnyddir grid marcio arferol y Gwasanaeth Cyfieithu, sy'n rhoi canlyniad "Anfoddhaol", "Addawol", neu "Boddhaol". Bydd dau ganlyniad – un yr un ar gyfer y profion deddfwriaethol a chyffredinol. Rhaid cael o leiaf un canlyniad "Boddhaol", ac un canlyniad "Addawol" neu "Boddhaol", i basio'r cam hwn.
- Cyfweliadau (drwy Teams).